Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

SWYDDOG IECHYD, DIOGELWCH A LLES

GRADD 8: CYFLOG: £31,586 – £32,654
37 AWR YR WYTHNOS
RHIF CYF: NU270
PARHAOL

Cododd gyfle cyffrous i benodi Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles parhaol a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Rydym yn chwilio i recriwtio person hynod fedrus a phrofiadol i weithio o fewn ein Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag amrediad o ddyletswyddau, yn gymesurol â rôl Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles.

Disgwylir i ddeilydd y swydd:

- Ymgymryd ag arolygiadau ac archwiliadau gorsaf
- Adolygu asesiadau risg
- Darparu amrediad o hyfforddiant sy'n seiliedig ar iechyd a diogelwch
- Gweithredu fel man cyswllt a chydlynu mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd:

- Â phrofiad o weithio o fewn amgylchfyd iechyd a diogelwch neu rôl debyg.

Cyn gwneir penodiad, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r canlynol:

- Prawf Cyffuriau ac Alcohol
- Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gellir canfod manylion llawn y rôl o fewn y Swydd Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'n Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a Lles drwy e-bostio j-wilcox@decymru-tan.gov.uk.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld y buddion o weithio gyda ni, ewch at: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/buddion.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o'r meini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol. **D.S: Dylid tystiolaethu hyn o fewn y datganiad personol.**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 canol dydd**, **20/02/2025**. Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag. Os bydd angen fersiwn papur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk. Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porthol, wrth ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Nodwch fydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.